**PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-ORLLEWIN**

**ADRODDIAD I'R CYNULLIAD 2001 - 2002**

**Rhagarweiniad**

1. Mae Pwyllgor Rhanbarth y De-orllewin yn un o bedwar o bwyllgorau rhanbarth y Cynulliad a nodir yn Rheol Sefydlog 10.

2. Yn ôl Rheol Sefydlog 10.2

> "Bydd y pwyllgorau rhanbarth yn cynghori'r Cynulliad ynglyn â materion sy'n effeithio ar eu rhanbarthau, effaith polisïau'r Cynulliad yn y rhanbarthau hynny a gwaith cyrff cyhoeddus yno. Bydd pob pwyllgor yn cyfarfod yn ei ranbarth o leiaf ddwywaith bob blwyddyn."

3. Mae gan y Pwyllgor 17 o aelodau:

| | | |
|---|---|---|
| Peter Black | Gorllewin De Cymru | Democratiaid Rhyddfrydol |
| Nicholas Bourne | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceidwadwyr |
| Alun Cairns | Gorllewin De Cymru | Ceidwadwyr |
| Cynog Dafis | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Plaid Cymru |
| Andrew Davies | Gorllewin Abertawe | Llafur |
| Glyn Davies | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Ceidwadwyr |
| Janet Davies | Gorllewin De Cymru | Plaid Cymru |
| Richard Edwards | Preseli Sir Benfro | Llafur |
| Delyth Evans | Canolbarth a Gorllewin Cymru | Llafur |
| Brian Gibbons | Aberafan | Llafur |
| Christine Gwyther | Gorllewin Caerfyrddin a De Sir Benfro | Llafur |
| Edwina Hart | Gwyr | Llafur |
| Helen Mary Jones | Llanelli | Plaid Cymru |
| Dai Lloyd | Gorllewin De Cymru | Plaid Cymru |
| Val Lloyd | Dwyrain Abertawe | Llafur |
| Gwenda Thomas | Castell-nedd | Llafur |
| Rhodri Glyn Thomas | Dwyrain Caerfyrddin a Dinefwr | Plaid Cymru |

4. Cadeiriodd Rhodri Glyn Thomas y Pwyllgor o fis Gorffennaf 2001 hyd at fis Mai 2002.

**Cyfarfodydd**

5. Mae'r Pwyllgor wedi cyfarfod bedair gwaith yn ffurfiol ac unwaith yn anffurfiol rhwng mis Gorffennaf 2001 a mis Mawrth 2002.

**Dull o Weithio**

6. Yn gyffredinol, mae'r Pwyllgor wedi canolbwyntio ar gynnal trafodaethau cyhoeddus ar bolisïau y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn eu datblygu neu ar adolygiadau'r pwyllgorau pwnc. Codwyd cwestiynau eraill gan aelodau o'r cyhoedd. Cafodd y rhain eu trosglwyddo i'r Gweinidog priodol yn y Cynulliad ymdrin â hwy.

7. Roedd y Pwyllgor yn awyddus hefyd i annog pobl ifanc i gymryd rhan yn ei drafodaethau, yn arbennig yn y cyfarfodydd a oedd yn ymwneud â'r adolygiad o'r iaith Gymraeg a gynhaliwyd yn Abergwaun a Rhydaman. Mae hefyd yn gobeithio cryfhau ei gysylltiadau ag ysgolion lleol.

**Lleoliadau'r Cyfarfodydd**

8. Mae'r Pwyllgor wedi parhau i gwrdd mewn canolfannau cymunedol a lleoliadau sy'n gyfleus i'r cyhoedd. Mae'r Clerc yn parhau i geisio cyngor AC yr etholaeth ac unrhyw grŵp mynediad i'r anabl lleol wrth ddewis lleoliadau. Yn ogystal ag Abergwaun (Gorffennaf) a Rhydaman (Mawrth), mae hefyd wedi cwrdd yn Abertawe (Hydref) ac Aberafan (Ionawr). Cynhaliwyd y cyfarfod anffurfiol yn Sanclêr.

**Y Materion Dan Sylw**

9. Mae'r Pwyllgor wedi delio ag amrywiaeth o eitemau pwysig yn ymwneud â holl gyfrifoldebau'r Cynulliad.

<u>Yr Iaith Gymraeg</u>

10. Trafododd y Pwyllgor yr iaith Gymraeg yn ei gyfarfodydd diwethaf ar 6 Gorffennaf a 15 Mawrth 2002. Ym mis Gorffennaf, roedd y drafodaeth yn canolbwyntio ar adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r iaith Gymraeg a nod y Cynulliad Cenedlaethol o greu Cymru ddwyieithog. Roedd cyfarfod mis Mawrth ar y llaw arall yn ystyried adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o'r iaith Gymraeg mewn addysg. Yn y ddau gyfarfod cafodd sefydliadau lleol, gan gynnwys myfyrwyr o ysgolion lleol, gyfle i gyflwyno eu safbwyntiau gerbron y Pwyllgor. Mae cadeiryddion y ddau bwyllgor pwnc wedi derbyn adroddiadau ar y trafodaethau hyn.

Rheoli Gwastraff

11. Ym mis Gorffennaf, cynhaliodd y Pwyllgor drafodaeth ar Strategaeth Rheoli Gwastraff arfaethedig Llywodraeth Cynulliad Cymru a gwrandawodd ar dystiolaeth gan nifer o sefydliadau lleol a grwpiau perthnasol. Cafodd eu safbwyntiau hwy, a safbwyntiau'r cyhoedd a gyfrannodd, eu bwydo yn ôl i Sue Essex, Gweinidog y Cynulliad dros yr Amgylchedd, fel rhan o'r broses ymgynghori ar y Strategaeth.

Strategaeth Pobl Hyn

12. Yn ei gyfarfod ym mis Hydref, ystyriodd y Pwyllgor gynigion Llywodraeth Cynulliad Cymru i ddatblygu fframwaith strategol er mwyn helpu i gynllunio gwasanaethau i fodloni amgylchiadau ac anghenion newidiol pobl hyn yng Nghymru. Roedd Jane Hutt, y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol, yn y cyfarfod ac fe glywodd ystod eang o safbwyntiau gan grwpiau pobl hyn, sefydliadau gwirfoddol a chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol. Cafodd y dystiolaeth a gyflwynwyd gerbron y Pwyllgor ei hystyried.

Yr Economi Wledig

13. Aeth y Pwyllgor yn ôl i drafod mater yr economi wledig yn yr hydref, yn dilyn gohirio cyfarfod mis Mai oherwydd bod sefyllfa clwy'r traed a'r genau wedi gwaethygu. Yn anffodus, nid oedd cworwm ar gyfer y cyfarfod, ond penderfynodd y Cadeirydd barhau â'r drafodaeth mewn cyfarfod anffurfiol. Yn hwn, trafodwyd barn y sefydliadau lleol â'r Aelodau a oedd yn bresennol ac fe drosglwyddwyd y farn honno i Carwyn Jones, y Gweinidog dros Faterion Gwledig.

Strategaeth Dai Genedlaethol Cymru

14. Cymeradwyodd y Cynulliad Cenedlaethol y Strategaeth Dai Cenedlaethol, fel y'i nodir yn "Gwell Cartrefi Gwell Cymru" ym mis Gorffennaf y llynedd. Yn ei gyfarfod ym mis Ionawr, clywodd y Pwyllgor safbwyntiau landlordiaid cymdeithasol lleol a thrigolion lleol ar sut y gellir bwrw ymlaen â rhai o'r materion pwysig yn y strategaeth. Roedd Edwina Hart, y Gweinidog dros Gyllid, Llywodraeth Leol a Chymunedau sy'n aelod o'r Pwyllgor Rhanbarth, yn bresennol ac fe atebodd gwestiynau'r cyhoedd am y Strategaeth.

## Casgliad

15. Mae'r Pwyllgor wedi ceisio canolbwyntio ei weithgareddau i'w defnyddio i ddatblygu polisïau neu yn adolygiadau'r pwyllgorau pwnc. Hoffwn ddiolch i bawb a gymerodd ran yn y trafodion dros y flwyddyn ddiwethaf.

16. Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf rhoddwyd pwyslais ar ennyn diddordeb y cyhoedd a gwneud y cyfarfodydd yn fwy hygyrch. Rydym yn gobeithio gallu cryfhau'r cysylltiadau ag ysgolion lleol yn y dyfodol oherwydd bod gan fyfyrwyr gyfraniad gwerthfawr i'w wneud i helpu i ddatblygu polisïau'r Cynulliad.

**Rhodri Glyn Thomas**
**Cadeirydd**

ATODIAD

# PWYLLGOR RHANBARTH Y DE-ORLLEWIN

## AMSERLEN Y CYFARFODYDD

### Gorffennaf 2001 - Mai 2002

| Dyddiad | Lleoliad | Agenda |
|---|---|---|
| 6 Gorffennaf 2001 | Ysgol Uwchradd Abergwaun, Abergwaun | Adolygiad y Pwyllgor Diwylliant o'r Iaith Gymraeg;<br>Meicroffon agored;<br>Strategaeth Rheoli Gwastraff. |
| 26 Hydref 2001 | Canolfan Dylan Thomas, Abertawe | Strategaeth Pobl Hyn;<br>Meicroffon agored. |
| 30 Tachwedd 2001 | Canolfan Hamdden Sanclêr | **Cyfarfod anffurfiol**<br>Economi Wledig;<br>Meicroffon agored. |
| 25 Ionawr 2002 | Afan Lido, Port Talbot | Strategaeth Dai Genedlaethol;<br>Meicroffon agored. |
| 15 Mawrth 2002 | Neuadd Les y Glöwyr, Rhydaman | Adolygiad y Pwyllgor Addysg a Dysgu Gydol Oes o'r Iaith Gymraeg mewn Addysg;<br>Meicroffon agored. |
| 24 Mai 2002 | Neuadd y Sir Hwlffordd | Materion yn Ymwneud ag Anabledd;<br>Meicroffon agored;<br>Adolygiad y Pwyllgor Datblygu Economaidd o'r Polisi Ynni yng Nghymru;<br>Ethol Cadeirydd;<br>Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor. |